YMGYNGHORWYR GWASANAETHAU POBL

(Swyddi Parhaol a chytundebau cyfnod sefydlog dros dro 12 mis ar gael)

RHIF Y SWYDD: 505453

GRADD: 8 (£30,296 i £31,364) yn codi i 9 (£32,076 i £33945) ar ail gylchdro cyffredinol

37 awr yr wythnos

Proffil y Rôl

Cododd gytundebau cyffrous, parhaol a chytundebau cyfnod sefydlog o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Wedi'u lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn Llantrisant, mae'r swyddi hyn yn ffurfio rhan o'r ail-strwythuro ehangach o fewn yr adran Gwasanaethau Pobl. Yn adrodd i'r Partneriaid Busnes Gwasanaethau Pobl, mae'r Ymgynghorwyr Gwasanaethau Pobl (YGP) yn helpu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl ehangach i ddarparu ar ei Flaenoriaethau Allweddol.

Mae'r tîm YGP yn sicrhau darpariaeth gwasanaeth Adnoddau Dynol (AD) proffesiynol ac effeithiol i'r staff cyfan, gan gefnogi Partneriaeth Busnes GP (PBGP) â phrosesau pobl. Mae'r tîm, sy'n cynnwys arbenigwyr cyffredinol aml-sgil, yn cyfrannu at adeiladu diwylliant cadarnhaol, croesawgar, cydlynus a chynhwysol wrth weithredu fel man cyswllt allweddol, cynnig cyngor a chyfarwyddyd i weithwyr a rheolwyr mewn perthynas â materion AD, i gefnogi prosiectau ac arwyddbostio at feysydd arbenigol lle bo'n briodol.

Bydd yr YGP yn cyflawni hyn:

- ~ Wrth weithredu fel man cyswllt unigol (yn seiliedig ar adran ac/neu awdurdod unedol yn ardal GTADC) i gefnogi rheolwyr a gweithwyr gyda'u hymholiadau.
- ~ Cefnogi'r tîm PBGP wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth, datblygu eraill, cynnig cefnogaeth a chyngor yn eu meysydd arbenigol, i sicrhau profiad gweithiwr rhagorol, gan roi pobl yng ngalon popeth rydym yn gwneud.
- ~ Cefnogi'r Tîm Gwasanaethu Pobl ehangach i sicrhau cyflawni'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG), Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ac wrth gyd-gynhyrchu Gwybodaeth Reoli (GR) i'n holl weithgarwch pobl craidd yn unol â'n polisïau a'n gweithdrefnau.
- ~ Cyfrannu at brosiectau a rhaglenni sy'n parhau i ddatblygu, monitro, arloesi a gwella pob un o'n gweithgareddau gwasanaethau pobl gweithredol gan gynnwys systemau a phrosesau.

Ychydig o resymau pam efallai mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl:

- Bydd gan y person cywir gymwysterau CIPD a'r neu'r sgiliau cyfatebol gyda phrofiad AD cyffredinol grymus.
- ~ Byddwch yn ymroddedig i ddatblygu eich hunan ac eraill, gyda'r gallu i ddylanwadu a chael effaith gadarnhaol ar brofiad y gweithiwr a'r diwylliant o fewn GTADC.
- ~ Byddwch yn medru gweithredu gyda meddylfryd chwimwth o fewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym, gan gadw'n llonydd ac arddangos

hydwythedd, ar bob adeg yn chwilio i ddatblygu ac esblygu'n barhaus, gan fyth dderbyn fod yn ail orau.

- ~ Bydd gennych brofiad o reoli llwyth gwaith cymhleth ac amrywiol o fewn amgylcheddau heriol a bythol newidiol.
- ~ Byddwch yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo gwell effeithiolrwydd sefydliadol a phrofiadau i weithwyr.
- ~ Bydd gennych y gallu i ddelio'n gytbwys â sgyrsiau heriol, anodd a chymhleth.
- ~ Byddwch yn ymroddedig i gyfranogi mewn diwylliant o wella parhaus, gan arddangos angerdd tuag at ddatrys problemau yn rhagweithiol, yn gallu rhoi ein gweithwyr yng nghalon popeth rydym yn gwneud gydag agwedd 'sut allwn eich helpu'.
- ~ Byddwch yn gallu gweithio'n agos â'r tîm pobl ehangach i sicrhau cysondeb prosesau pobl.
- ~ Byddwch yn ymroi i weithredu fel Eiriolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Chydraddoldeb (ACCCh) gan gymryd rhan yn weithredol mewn prosiectau, hyrwyddo mentrau ac ymgyrchoedd.

Nid ydym yn chwilio am rywun fydd yn eistedd i lawr gan ddweud "gwneith hynny'r tro". Rydym yn rhoi gwerth ar bositifrwydd, chwimder, arloesedd a bod yn berson rhagorol i gydweithio â hwy. Mae ein nodau uchelgeisiol ledled Cyfarwyddiaeth a Gwasanaeth yn cyflwyno cyfle ardderchog i ni am newid. Byddwn yn gweithio'n galed i ddarparu, ac mae yna lawer i'w wneud, ond mae'r gallu i gael effaith yma'n ddi-ddiwedd.

Beth sy'n bwysig i ni?

- ~ Profiad a chymhwysterau/neu gymwysterau AD cyffredinol profedig
- ~ Sgiliau trefniadol, gweinyddol ac ysgrifennu adroddiad rhagorol.
- ~ Profiad o weithio gyda rhaglenni a/neu systemau TGCh.
- ~ Gwybodaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth gyflogaeth
- ~ Bod yn agos atoch gyda gallu cyfathrebu ac adeiladu cydberthnasau cryf ar draws pob lefel o sefydliad.
- ~ Parodrwydd i helpu, bod yn hunan-ddisgybledig ac ymroddedig i gymryd perchnogaeth er mwyn datrys ymholiadau rheoli a gweithwyr.
- ~ Wedi'u hysgogi ac â phendantrwydd gydag agwedd sydd wedi'i ganolbwyntio ar ddatrys - bod yn gallu cymryd perchnogaeth a bod yn atebol mewn perthynas â darparu canlyniadau boddhaol.
- ~ Meddu ar hanes hir profedig o gyfrannu at ddarparu amryfal brosiectau gyda blaenoriaethau croes ac amrywiol ofynion gan randdeiliaid, wrth weithredu hyd at derfynau amser tynn wrth fod yn flaengar ei feddwl ac â'r gallu i ddatrys problemau'n annibynnol, gyda llawer o ddyfeisgarwch, egni ac ymroddiad personol.
- ~ Y gallu i weithio'n dawel, yn gydweithredol, yn effeithiol ac effeithlon gydag amryfal randdeiliaid (yn fewnol ac allanol) i sicrhau cyflawni cynlluniau Cyfarwyddiaeth. Byddwch yn angerddol ynghylch pobl ac yn awyddus i saernïo'r amgylchedd gwaith o fewn GTADC, yn ei wneud yn le croesawgar, cynhwysol a chyffrous i fod.

- ~ Byddwch yn talu sylw at fanwl gywirdeb a blaenoriaethu sicrhau bydd gennym ddata glân - byddwch yn poeni ynghylch cael pethau'n gywir ar y cyfle cyntaf a bydd gennych y gallu i gynhyrchu metrics, gan feddu ar sgiliau cyfathrebu clir, cryno a dylanwadol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- ~ Bydd gennych yr awydd i wella'n barhaus, gyda'r gallu i adnabod cyfleoedd sy'n chwilio i wella perfformiad eich hunan ac eraill.

Cais:

I ymgeisio ar gyfer y rôl hon, dylai ymgeiswyr ddarllen y meini prawf cymhwystra dilynol yn llawn ac ymateb yn fanwl i'r 5 maen prawf rhestr fer a amlinellwyd wrth atodi'r ddogfen rhestr fer i'w cais ar-lein.

Dylid cwblhau ffurflenni cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei gyrchu drwy law ein gwefan: https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/. Yn ystod y broses, anogir ymgeiswyr i wirio pob ffolder e-bost am ddiweddariadau a gynhyrchwyd gan y system. Os oes angen fersiwn bapur, e-bostiwch: personél@decymru-tan.gov.uk. **NID YDYM YN DERBYN FFURFLENNI CV FEL RHAN O'R CAIS. A FYDDECH CYSTAL Â CHWBLHAU'R CAIS AR-LEIN YN LLAWN, GAN UWCHLWYTHO EICH MEINI PRAWF RHESTR FER O FEWN YR ADRAN TYSTIOLAETH GEFNOGOL GAN DDEFNYDDIO'R TEMPLED A DDARPARWYD.**

Ymgeiswyr Allanol - A fyddech cystal â nodi bydd penodiadau i'r rôl hon yn amodol ar ymgymryd â gwiriad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwch yn ymwybodol bydd y gwiriad hwn yn synhwyro unrhyw gollfarnau neu orchmynion treuliedig neu anhreuliedig. Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Alcohol a Chyffuriau.

Dyddiad cau - 12:00 hanner dydd ar Ddydd Llun yr 22ain o Orffennaf 2024

MEINI PRAWF CYMHWYSTRA Rhaid i'r ymgeiswyr allu cynnig tystiolaeth ynghylch y meini prawf dilynol: 1. Profiad Adnoddau Dynol cyffredinol profedig 2. Cymhwyster Lefel 5 CIPS neu gyfatebol 3. Gwybodaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth gyflogaeth
GOFYNION RHESTR FER:

Ymgynghorydd Gwasanaethau Pobl (YGP)

A fyddech cystal ag amlinellu, mewn dogfen Word, sut rydych yn cwrdd â phob un o'r 5 maes meini prawf rhestr fer canlynol mewn dim llai na 300 gair ar gyfer pob maen prawf (cyfanswm o 1500 o eiriau)

1. **Cymhwystra** - A fyddech cystal ag amlinellu sut rydych yn cwrdd â gofynion y meini prawf cymhwystra ar gyfer y rôl hon.
2. **Effaith Bersonol -** A fyddech cystal ag amlinellu sut fyddech chi'n arddangos eich bod yn rhoi gwerth ar gynhwysiant a sut rydych yn gosod esiampl gadarnhaol o ymddygiad amhriodol i gyfoedion a newydd ddyfodiaid.
3. **Arweinyddiaeth Ragorol** - A fyddech cystal ag arddangos sut rydych chi wedi dysgu sgiliau ac ymddygiadau newydd yn rhagweithiol, gan fodelu rôl pwysigrwydd datblygu.
4. **Darparu Gwasanaethau** – A fyddech cystal ag amlinellu sut wnaethoch benderfyniadau yn flaenorol wrth ddadansoddi tystiolaeth gefnogol, risg a gwybodaeth flaenorol i sicrhau'r arfer orau.
5. **Effeithiolrwydd Sefydliadol** – A fyddech cystal ag amlinellu sut wnaethoch gynnig syniadau newydd ac adborth i wella gwasanaethau a sut rydych wedi derbyn syniadau pobl eraill i ddatblygu llwyddiant eich sefydliad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith a'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam rhestr fer i ddewis eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Rydym yn credu mewn gwir werth meddu ar weithlu amrywiol ac yn annog ceisiadau o bob sector o fewn ein cymuned.